**CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL**

**4.11.21 (*gohirwyd o 28.10.21*)
7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; JOJ; AR; GW; TAJ; RJ;IW;BJ<br><br>**Ymddiheuriadau:** DP;DM; DL; EO<br><br>**Mynychu:** SWR ; Cyng Llinos Medi *(hyd at 7:30pm)*<br><br>Penderfynwyd gohirio y CCB (AGM) hyd nes bydd y Cyfrifon am 2020/21 i law gan Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd LLMH a JAJ ddiddordeb yn Eitem 7 Cynllunio. |
| **3** | **Cofnodion**<br><br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 28.10.21 fel rhai cywir – (DAW/AR) yn unol a chywiro tudalen 2 – AR - 'angen bin newydd yn ardal dim cwn' *i ddarllen* 'angen biniau newydd yn yr ardal chwarae'.<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Parcio yn y Stesion –** adroddod y Clerc nad oedd wedi derbyn cais ffurfiol gan Mr Henry Jordan i gael parcio yn y Stesion fel a ofynwyd iddo gan y Cadeirydd. Nodwyd bod swyddog CSYM wedi cyflwyno rhybudd ffurfiol i berchennog 4 modur ar y safle.<br><br>**Meddygfa Glan Menai**<br><br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu a'r Rheolwr Practis i nodi pryderon gofnodwyd yng nghyfarfod mis Medi. Nodwyd y canlynol:-<br><br>- Pob cais am ffonio yn ôl yn cael eu gweithredu 'run diwrnod<br>- Yn dilyn pob galwad ffon, os yw'r Meddyg/Nyrs o'r farn y dylent weld y claf wyneb yn wyneb bydd hyn yn digwydd 'run diwrnod hefyd |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

- Polisi drws agored wedi ei weithredu yng Nglan Menai ers dechrau COVID – nifer o feddygfeydd yn defnyddio system 'intercom'
- Gall Coed y Glyn dderbyn hyd at 100 o alwadau ffon y dydd – yn ychwanegol at hyn, mae angen i'r clinigwyr ddelio gyda chanlyniadau adroddiadau; rhagnodi; creu cyfeiriadau i ysbytai a chynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb.
- Nododd y Rheolwr Practis bod nifer o is-feddygfeydd (sub-branches) wedi gorfod cau o ganlyniad i'r pwysau yn y Brif Feddygfa (diffyg staff oherwydd COVID ayyb) a bod Coed y Glyn yn hynod falch nad ydynt wedi gorfod cau drws Glan Menai.

Nododd y Rheolwr Practis na fyddai yn bosib, o dan yr amglychiadau presennol i Feddyg ddod at y Cyngor Cymdeithas i drafod ond ei bod hi ar gael pob amser i ateb unrhyw ymholiadau neu bryderon.

**Taliad Fforddfraint (Wayleave) Scottish Power** – cartrefu polion trydan yn CPD a tu cefn i Unedau Tan y Foel. Nododd y Clerc mai £42.75 y flwyddyn fydd y taliad. Mae ôl daliad am 6 mlynedd sef yr uchafswm gellid ei ddyrannu - £256.74 a gyda thalliad eleni o £42.75 rydym wedi derbyn cyfanswm o £299.49

**Clwb Snwcer** - TAJ wedi trafod gyda Derlwyn Hughes Moelfre sy'n cadarnhau bod arian gosodiadau'r Neuadd ym Moelfre bellach yn mynd i bwrs yr Ysgol. Roedd teimlad cryf yn mysg yr aelodau bod angen datrusiad buan i'r mater hwn. Nododd JAJ nad oedd am fod yn rhan o unrhyw drafodaeth ffurfiol gan ei fod o'r farn y dylid cadw'r stafell i ddefnydd y Gymuned.

Cytunwyd i'r Clerc:-

- Holi os oes gan John Ivor Roberts ddiddordeb o hyd i ail-agor y Clwb.Snwcer
- Cysylltu gyda Dylan Edwards Pennaeth Eiddo CSYM i drefnu cyfarfod gyda aelodau Pwyllgor y Neuadd a Phennaeth yr Ysgol

Twmpathau arafu taffic – nodwyd yr ymateb canlynol gan Adran Priffyrdd CSYM –

' *– mewn rhai lleoliadau defnyddir llinellau coch gyda marciau ARAF/SLOW. Nid oes meini prawf penodol yn datgan lle gellir gosod y marciau yma ond oherwydd y gost ychwanegol yn gysylltiedig gyda'r marciau coch yna yn arferol mae'r rhain yn cael eu gosod os ceir ffynhonnell arian grant. Hefyd yn hanesyddol mae llinellau coch wedi eu gosod ar draws y ffordd ar ymylon pentrefi a threfi wrth agoshau ar gyfyngiad 30 neu 40 m.y.a. Gelwir y rhain yn 'rumble strips'. Yn arferol*


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | *nid yw'r rhain yn cael eu hail osod os maent wedi gwisgo neu os yw lôn wedi cael ei hail wynebu. Os ceir pryder lleol am gyflymder ac arolygon yn dangos diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfyngiad yna gellir ystyried ail osod y 'rumble strips'.* Cytunwyd i holi sut i ymgeisio am arolygon ar ffordd i mewn i'r pentref o Amlwch a Llangefni.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun gweithredu i greu fersiwn 4.11.21 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**RJ –** meinciau ar safle Glan Menai wedi pantio – cytunwyd i GW drwshio os yn bosib.<br><br>**BJ –** cyfeiriodd at gyflwr cyffredinol cae chwarae Glan Menai ac am ddiogelwch yr offer. Cytunwyd i JAJ holi cwmni CL Jones Bethesda i gynnal arolwg a defnyddio'r arian grant £1.5K i weithredu unrhyw welliannau .<br><br>- Nododd bod percennog y Ty Golchi wedi cynnig Coeden Dolig i'r cymuned – GW i gysyttu ag o rhag blaen.<br>- Nododd ei bwriad i drefnu pryd poeth Nadolig i rai hyn a bregus y pentref eto eleni. Cytunodd y Clerc i adael BJ wybod faint sydd weddill yn y pwrs ar ôl gwariant grant COVID llynedd ac fe gytnwyd yn unfrydol i'r Cyngor Cymdeithas ddarparu unrhyw ddiffyg ariannol os bydd angen. Diolchwyd i BJ am ei gwaith caled yn trefnu hyn.<br><br>**GW –** cyferiodd at oleaudau angen sylw yn y Caffi – Nododd y Clerc bod Carolyn am gysylltu a'n trydanwr.<br><br>- Angen rhagor o fagiau dal baw ci – Clerc i archebu.<br>- Sul y Cofio – nododd y gallasai bydd cost i rentu system sain eleni gan nad yw Arwel Hughes yn berchennog y cwmni bellach. Cytunwyd i'r gost llogi.<br>- Nododd bydd y ddau gerflun 'Tommy' yn cael eu gosod nes at Sul y Cofio ac yn cael eu tynu lawr a'u storio wedi hyn er mwyn osgoi unrhyw fandaliaeth.<br><br>**AR –** grid ger maes parcio Jerisalem wedi blocio. Nododd RJ bod CSYM yn glanhau grid ddwy waith y flwyddyn. Clerc i wirio gyda Adran Priffyrdd CSYM<br><br>Cwynion i law am lefel y swn o dafarn y Bull. Clerc i wirio y drefn gyda CSYM<br><br>**TAJ –** 2 olau stryd yn ddiffygiol pen draw Stryd Coedwig. DAW i wirio rhifau y polion a'r Clerc i adrodd i CSYM<br><br>**JAJ –** nododd bod trefniadau Sul y Cofio mewn llaw a bydd gwasanaeth yn yr Eglwys am 10 y bore gyda Vaughan Prydderch yn |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | arwain ac wedyn wrth y Gofeb. Nodod bod taliad o £200 i Richard Owen am gynnal a chadw'r safle drwy'r flwyddyn a £108 am rithoedd yn cael eu talu o bwrs yr Ymddiriedolaeth. Cytunwyd i gynnal ffrwd fyw o'r gwasanaeth ar y Gweplyfr. Cytunwyd hefyd i bawb anfon enwau unrhyw bersonel y Lluoedd Arfog sy'n byw yn lleol at JAJ er mwyn eu gwahodd i'r gwasanaeth.<br><br>- Cyfeiriodd hefyd at luniau o waith Merfyn Jones Lon Cilgwyn. Cytunwyd i neilltuo ardal yn y Caffi i'w harddangos am gyfnod penodol. JAJ i gysylltu a Merfyn Jones a GW/DW i weithredu'r gosod.<br><br>Nodwyd bod car yn parcio o flaen giat y Stesion ochr y feddygfa sy'n amharu ar weledde. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a'r perchennog a gofyn iddo barcio ochr mewn i'r giat ym maes parcio'r Stesion. Hefyd, angen adnewyddu yr 'access markers' ar y lon – Adran Priffyrdd.<br><br>Cytunwyd hefyd i holi Adran Priffyrdd am y posibilrwydd greu man parcio neilltuol i Feddygon Glan Menai ar y pafin carregog ger talcen yr adeilad. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Medi** — **£**<br><br>Garry Lewis – draenio'r gwres canolog yn y Caffi — 270<br>HMRC – cyflog Clerc ail chwarter — 157.80<br>RBLI – archebu 2 gerflun i Cae Gofeb — 370<br>Aelodaeth UnLlaisCymru — 222<br>Scottish Power – trydan Clwb Peldroed<br>Gorffennaf - Hydref — 143.26<br><br>**Biliau cyfredol:** — **£**<br>360 Groundcare Ltd – gwaith cynnal a chadw<br>cae peldroed – ad-daliad £450 wedi ei dderbyn — 540<br><br>Infois WH Owen Tyn y Caeau am dorri gwrchyn<br>Egwlys Coedana. Nodwyd i'r Clerc gytuno i hyn<br>fel gwaith brys unwaith ac am byth i hwyluso mynediad<br>diogel i'r Fynwent. — 125<br><br>Balans cyfrif cyfredol 4 Tachwedd 2021 = £15,187.90 |
| **6.** | **Materion Cynllunio** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Angen trafodaeth:-**<br><br>**Cais  HHP/2021/354 Afallon Ffordd Caergybi** – dim gwrthwynebiad (DAW/RJ)<br><br>**Cais FPL/2021/99 Ty Hen Isaf Llannerchymedd –** dim gwerthwybebiad (TAJ/JOJ) |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall –**<br><br>**Cae Chwarae Cae Gofeb**<br><br>Cyfeiriodd JAJ at grwp o famau ifanc sy'n ceisio gwella adnoddau chwarae yng Nghae Gofeb.  Nododd y Clerc eu bod yn gweithredu fel Is Grwp i Grwp LlanNi a'u bod wedi cael cyfarwyddyd glir gan y Clerc bod rhaid cael caniatad y Cyngor Cymdeithas cyn gweithredu unrhyw gamau pellach.  Cytunwyd i BJ gysylltu a nhw i roi arweiniad iddynt a gweithio fel cyswllt pridol ar ran CCLlan. .<br><br>**Cyfarfod nesaf**<br><br>Gan nad oes cyfarfod ym mis Rhagfyr fel rheol a bod y cyfarfod hwn wedi ei ohirio am wythnos cytunwyd i gynnal cyfarfod arferol mis Tachwedd ar **2 Rhagfyr**.  Clerc i wirio nad oes unrhyw ddigwyddiad/gyngerdd gan yr Ysgol ar yr un noson.  Clerc i gadarnhau trefniadau.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383